Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Atal Twyll

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Tachwedd 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnyddio fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall, os gwelwch yn dda:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni ar post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | 4 |
| Ein canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 11 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 14 |
| Amdanom ni | 16 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Yn 2020, gwnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru 15 o argymhellion i wella'r ffordd y mae sector cyhoeddus Cymru yn mynd i'r afael â thwyll.[1] Fe wnaethom hefyd ysgrifennu at y Cyngor ym mis Chwefror 2020 yn nodi rhai bylchau yn nhrefniadau atal twyll Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Cyflwynwyd canfyddiadau ein gwaith cenedlaethol a lleol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref 2020.[2]

2 Fel rhan o'n rhaglen waith 2025-26, fe wnaethom edrych ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer atal a chanfod twyll a gwirio'r cynnydd y mae wedi'i wneud wrth weithredu ein hargymhellion.

## Pam mae hyn yn bwysig

3 Mae'r risg o dwyll yn fygythiad cynyddol gyffredin i bron pob rhan o fywyd bob dydd. Mae'r risg o dwyll yn gyffredin ar draws pob agwedd o’r sector cyhoeddus. Mae pob punt sy’n cael ei dwyn o'r sector cyhoeddus yn golygu bod llai i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysicach nag erioed i bob corff cyhoeddus yng Nghymru geisio lleihau'r risg o golledion drwy dwyll.

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r afael â Thwyll yng Nghymru, Gorffennaf 2020

[2] Cyflwyniad Archwilio Cymru: Gwella ein Perfformiad: Mynd i'r afael â Thwyll yng Nghymru, Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Hydref 2020

4 Nododd adroddiad Swyddfa'r Cabinet yn 2019 ystod uchaf ac isaf ar gyfer colledion tebygol yng ngwariant y llywodraeth o rhwng 0.5% a 5% o'r gwariant i dwyll a gwall.[3] Mae cymhwyso'r amcangyfrifon hynny i wariant refeniw cyllidebol £208 miliwn y Cyngor yn 2024-25 yn awgrymu y gallai rhwng £1 miliwn a £10 miliwn fod wedi cael ei golli oherwydd twyll a gwall yn y cyfnod hwnnw.[4]

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Ar y cyfan, gwelsom fod y Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau atal twyll, ers adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020. Bellach mae gan y Cyngor swyddog Atal Twyll penodol ac mae'n cydweithio'n dda â sefydliadau eraill wrth ddefnyddio ei offer a'i ddata. Mae wedi diweddaru ac adolygu ei bolisïau atal twyll, er bod cyfleoedd i gryfhau agweddau ar ei fframweithiau rheoli a rheoli risg twyll. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfle i adolygu a herio trefniadau a gweithgareddau atal twyll y Cyngor, ond mae lefel y drafodaeth wedi bod yn eithaf isel.

## Yr hyn a argymhellir gennym

6 Gwnaethom bedwar argymhelliad gyda'r nod o gryfhau trefniadau atal twyll y Cyngor ymhellach. Mae'r rhain yn cwmpasu:

- rheoli risg o dwyll;
- Cynllun Ymateb i Dwyll i hyrwyddo ei ddull dim goddefgarwch ymhellach;
- trefniadau ataliol a dysgu presennol o drefniadau atal twyll; a
- sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gallu asesu a chraffu ar effeithiolrwydd trefniadau atal twyll yn ddigonol.

---

[3] Swyddfa'r Cabinet, Tirwedd Twyll Traws-Lywodraethol Adroddiad Blynyddol 2019, Chwefror 2020

[4] Llywodraeth Cymru, Stats Cymru, Alldro Refeniw Llywodraeth Leol

# Ein canfyddiadau

## Mae’r rhan fwyaf o'r trefniadau allweddol ar waith i atal a chanfod twyll gan y Cyngor, ond gellid gwella rhai ohonynt

### Diwylliant

7 Mae'r Cyngor yn hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant da o atal twyll. Yn ei Bolisi Atal Twyll a Llygredd, mae'r Cyngor yn nodi'n glir y bydd yn ceisio'r sancsiynau priodol yn erbyn unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n twyllo neu'n ceisio ei dwyllo. Cytunodd y Cyngor ar ei bolisi Gorfodi Atal Twyll ym mis Ionawr 2025 i gefnogi hyn. Mae'r Cyngor yn tanlinellu ei ymrwymiad i atal twyll ar ei fewnrwyd a'i rhyngrwyd.

8 Mae gan y Cyngor fynediad at staff hyfforddedig atal twyll sy'n bodloni safonau proffesiynol cydnabyddedig. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn cael Swyddog atal Twyll arbenigol, sydd wedi bod yn y swydd ers tua dwy flynedd. Mae'r swyddog wedi datblygu ei hyfforddiant proffesiynol a'i achrediad. Mae hyn yn cynnwys gallu ymgymryd ag ymchwiliadau twyll.

9 Mae swyddog Atal Twyll y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) gan eu galluogi i elwa o'r gefnogaeth a'r arbenigedd ar y cyd ar draws y tri aelod-gyngor. Mae Pennaeth a Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn mynychu fforwm Prif Archwilwyr Mewnol Cymru gan ddarparu fforwm arall i drafod trefniadau. Mae cael adnodd arbenigol yn galluogi'r Cyngor i wella eu canfod o dwyll ac atal twyll. Mae'n rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gref i ymateb i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg, gan leihau'r risg, yn gyffredinol, o golled ariannol trwy dwyll.

10 Nid yw'r Cyngor bob amser yn gofyn i'w staff atal twyll neu archwilio adolygu polisïau neu strategaethau newydd. Mae hwn yn gyfle a gollwyd i wella rheolaethau. Heb eu mewnbwn, gall y Cyngor anwybyddu risgiau twyll mewn cynlluniau newydd.

11 Mae sesiwn hyfforddi atal twyll o fewn y rhaglen sefydlu orfodol ar gyfer pob gweithiwr ac aelod newydd. Mae hyn yn sicrhau'r Cyngor bod gan bob aelod o staff ac aelodau newydd y ddealltwriaeth leiaf o atal twyll. Fodd bynnag, trwy beidio â sicrhau bod yr holl staff ac aelodau presennol yn cael hyfforddiant gorfodol, nid yw'r Cyngor yn lliniaru'r risg o dwyll sy'n datblygu'n gyflym.

## Polisïau a chynlluniau

12 Mae'r Cyngor wedi diweddaru ei Strategaeth Atal Twyll (y Strategaeth) i wella canfod, rheoli ac ymateb i risg twyll.[5] Mae'r Strategaeth yn cysylltu â pholisïau cysylltiedig eraill, gan gynnwys cod ymddygiad y Cyngor, chwythu'r chwiban, a pholisïau atal llwgrwobrwyo a llygredd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi rhannu'r Strategaeth wedi'i ddiweddaru gyda staff ac aelodau eto. Mae hyn yn bwysig, oherwydd efallai na fydd staff ac aelodau yn ymwybodol o'r trefniadau atal twyll sy'n berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

13 Mae'r Strategaeth yn cynnwys Cynllun Ymateb i Dwyll. Ond nid yw'r Cynllun yn esbonio sut y bydd y Cyngor yn rhannu gwybodaeth am achosion o dwyll a gadarnhawyd. Gall rhannu'r achosion hyn helpu i atal twyll a dangos i staff a thrigolion bod y Cyngor yn cymryd twyll o ddifrif.

14 Nid yw'r Cyngor yn monitro cydymffurfiaeth â'i Gynllun Ymateb i Dwyll. Mae hyn yn bwysig oherwydd heb sicrhau bod pob ymchwiliad twyll yn dilyn y camau a nodir yn ei Gynllun Ymateb i Dwyll, mae'r Cyngor mewn perygl o beidio â chyflawni ei sefyllfa arfaethedig o atal twyll a dim goddefgarwch.

[5] Strategaeth a Fframwaith Atal Twyll, Mawrth 2025

15 Nid oes gan y Cyngor gynllun cyflawni atal twyll blynyddol sy'n nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â risgiau twyll a nodwyd, dyrannu adnoddau, gosod amserlen a chyfrifoldeb swyddog am gyflawni. Trwy beidio â chynllunio cyflawni blynyddol effeithiol ar gyfer gweithredu ar yr asesiad risg twyll, mae'r Cyngor mewn perygl o beidio ag ymateb i risgiau twyll a nodwyd mewn ffordd a reolir yn dda sydd wedyn yn cyfyngu ar werth am arian o'i drefniadau atal twyll.

16 Mae gan y Cyngor gofrestr risg twyll, ond mae gwendidau yn ei drefniadau asesu risg atal twyll presennol. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn adolygu ei asesiad risg atal twyll. Fodd bynnag, mae gwaith hyd yma yn awgrymu ei fod yn ddiweddariad ysgafn yn hytrach nag adolygiad cynhwysfawr. Mae'r diffyg asesiad risg trylwyr o dwyll yn lleihau gallu'r Cyngor i nodi a mynd i'r afael ag achosion posibl o dwyll. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n anodd deall a yw'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio i liniaru risgiau twyll yn cael eu targedu'n briodol.

17 Mae'r Cyngor yn cynnal gwiriadau cyn cyflogaeth wrth benodi gweithwyr newydd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi gwerthuso pob swydd a rôl i nodi'r swyddi hynny sydd â mwy o risg o dwyll er mwyn sicrhau bod gwiriadau cyn-gyflogaeth ychwanegol yn cael eu gwneud.

## Cydweithio a dysgu

18 Mae'r Cyngor yn defnyddio dadansoddeg data yn ei waith atal twyll ac yn defnyddio'r ap y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) i reoli prosesu cyfatebu data sy'n nodi achosion posibl o gamgymeriadau a thwyll. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn derbyn adroddiadau ar gynnydd y Cyngor wrth brosesu paru data gan gynnwys NFI bob tri mis.

19 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor bob amser yn gwneud y mwyaf o effaith yr NFI. Er bod data sy'n cyfateb yn cael eu trosglwyddo i adrannau perthnasol, nid oes bob amser swyddogion ar gael i brosesu'r achosion posibl hyn o dwyll a gwall. Trwy beidio ag ystyried yr holl gydweddiadau data a amlygwyd gan yr NFI, mae'r Cyngor mewn perygl o beidio â nodi pob achos o dwyll a gwall, ac o bosibl cael achosion twyll heb eu canfod. [6]

20 Mae'r Cyngor yn cydweithio â sefydliadau eraill i gryfhau effaith ei drefniadau canfod ac atal twyll. Mae'n rhannu data â sefydliadau fel y Fforwm Twyll Tenantiaeth, Grŵp Swyddogion Twyll Cymru, a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

21 Mae'r Cyngor yn coladu gwybodaeth am golledion ac adferiadau ac yn rhannu gwybodaeth twyll gyda sefydliadau sector cyhoeddus i gryfhau rheolaethau a gwella monitro a chefnogi gweithredu wedi'u targedu. Mae adroddiadau misol ar weithgareddau atal twyll yn cael eu trafod gyda gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor.

22 Nid yw'r Cyngor bob amser yn gwerthuso dysgu o achosion twyll nac yn darparu adborth i adrannau i helpu i gryfhau trefniadau atal twyll. O ganlyniad, colli cyfleoedd i wella.

## Llywodraethiant

23 Mae strategaeth a dogfen fframwaith atal twyll y Cyngor yn nodi mai rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw monitro yn rheolaidd ymagwedd y Cyngor at fynd i'r afael â thwyll a llygredd a hyrwyddo diwylliant atal twyll. Mae hefyd yn tanlinellu bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarae rhan allweddol wrth graffu ar ymagwedd y Cyngor at dwyll, ei system o reolaethau a rheoli risg, a'i wydnwch ehangach i afreoleidd-dra ariannol yn gyffredinol.

[6] Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru

24 Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bolisïau atal twyll y Cyngor ym mis Mai 2025. Yn y cyfarfod hwnnw, ar gais y Pwyllgor, cytunwyd y byddai Archwilio Mewnol yn darparu adroddiadau cynnydd atal twyll bob chwe mis. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn rhaglen waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd Adroddiad Atal Twyll Blynyddol y Cyngor 2024-25 ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o drefniadau a gweithgareddau atal twyll y Cyngor. Fodd bynnag, gwelsom fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnig ymgysylltiad, craffu a herio cyfyngedig yn unig o drefniadau atal twyll y Cyngor ar gyfer y cyfarfodydd a arsylwyd gennym. Mae craffu a herio effeithiol yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn benderfynydd pwysig yn effeithiolrwydd trefniadau atal twyll y Cyngor.

# Argymhellion

**A1 Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau atal twyll i liniaru risgiau twyll sy'n datblygu'n gyflym trwy:**

1.1 Cynyddu ei ymwybyddiaeth o risgiau twyll i gynnwys pob rhan o'r sefydliad drwy ddatblygu asesiad risg twyll cynhwysfawr ar gyfer holl adrannau'r Cyngor sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn (paragraff 16).

1.2 Datblygu cynllun cyflawni atal twyll blynyddol sy'n ymateb i risgiau twyll gyda'r gwerth, yr effaith a'r tebygolrwydd mwyaf a nodwyd yn yr asesiad risg twyll. Dylai pob ymateb i dwyll ddiffinio cyfrifoldeb i swyddogion unigol, amserlenni ar gyfer cyflawni ac adnoddau sydd eu hangen (paragraff 15).

1.3 Rhannu ei Strategaeth Atal Twyll gyda staff ac aelodau (paragraff 12).

**A2 Atgyfnerthu dim goddefgarwch i dwyll y Cyngor gan gryfhau ei Gynllun Ymateb i Dwyll trwy:**

2.1 Bod yn glir yn ei Gynllun Ymateb i Dwyll ar sut a phryd y bydd y Cyngor yn cyhoeddi twyll profedig i gefnogi ei sefyllfa strategol dim goddefgarwch (paragraff 13).

2.2 Cyflwyno trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun Ymateb i Dwyll (paragraff 14).

**A3 Cryfhau ei drefniadau atal twyll a dysgu am atal twyll presennol trwy:**

3.1 Cyflwyno hyfforddiant gloywi rheolaidd atal twyll ar gyfer yr holl staff ac aelodau etholedig, gan gynnwys mesurau i asesu effeithiolrwydd yr hyfforddiant (paragraff 11).

3.2 Nodi swyddi/rolau ar draws y sefydliad sydd â risg uchel o dwyll a sicrhau bod sgrinio cyn-gyflogaeth cyfatebol ac effeithiol yn cael ei gynnal (paragraff 17).

3.3 Ymgynghori â'i staff atal twyll / archwilio mewnol ei hun i bolisïau, strategaethau a mentrau newydd sy'n gwrthsefyll twyll ar draws adrannau (paragraff 10).

3.4 Ymgymryd â dysgu yn gyson ar ôl twyll i ddeall sut y digwyddodd twyll ac i gryfhau ei drefniadau i atal twyll (paragraff 22).

**A4 Dylai'r Cyngor sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn asesu ac yn craffu ar effeithiolrwydd trefniadau atal twyll y Cyngor.**

4.1 Dylai hyn gynnwys hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar atal twyll a diweddariadau ar gynllun cyflawni atal twyll y Cyngor (paragraffau 11 a 24).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Edrychodd yr archwiliad hwn ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer atal a chanfod twyll. Edrychodd hefyd ar asesu cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn ein hadroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2020.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Ceisiodd yr archwiliad hwn ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor yn hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant da atal twyll?
- A yw'r Cyngor yn cynnal asesiadau risg twyll cynhwysfawr?
- A yw asesiadau risg twyll yn cael eu defnyddio fel adnodd byw ac wedi'u hintegreiddio yn y fframwaith rheoli risg cyffredinol i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli a'u cynyddu'n briodol yn ôl yr angen?
- A oes gan y Cyngor set gynhwysfawr a chyfoes o bolisïau a gweithdrefnau sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli strategaeth gydlynol ar gyfer nodi, rheoli ac ymateb i risgiau twyll?

### Meini prawf

Roedd ein meini prawf archwilio yn tynnu ar y canfyddiadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad astudiaeth genedlaethol 'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r afael â Thwyll yng Nghymru, Gorffennaf 2020.

## Dulliau

Cafodd ein hadolygiad ei lywio gan adolygiad o ddogfennau'r Cyngor a chyfweliadau â swyddogion ac aelodau sydd â rôl allweddol yn nhrefniadau atal

twyll y Cyngor. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom gynnal yr adolygiad o fis Mawrth i fis Mai 2025. Fe wnaethom hefyd ystyried adroddiad atal twyll blynyddol y Cyngor, a aeth i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2025.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.